Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Dôl Idris, Cader Idris

**MYNEDIAD I BAWB**




## Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 1.25km (<1 milltir)
- Hyd: ¾ awr
- Math o daith: Cylchdaith

## Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru



V-20231111/1914

1



Cerddwch allan o’r maes parcio, ewch drwy giât mochyn a throwch i’r chwith gan ddilyn y llwybr.

2



Ar gyrraedd fforch yn y llwybr, cerddwch i’r dde i ddilyn y daith fer. Byddwch yn cerdded dros y bont ac o amgylch y llyn. Cerddwch i’r chwith os ydych am ddilyn y daith hir o amgylch y parc.

3



Ewch i’r dde, dros y bont fach a cherddwch heibio’r caffi ar y chwith. Ewch drwy’r giât mochyn pren sydd ar y dde.

4



Bydd y daith fer yn ymuno a’r daith hir yn y fan hon. Cyn hir fe fyddwch yn cyrraedd yn ôl at giât y maes parcio.